

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cyfnewidfa Hardwick, Y Fenni,
Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2019

The A465 Trunk Road (Hardwick
Interchange, Abergavenny,
Monmouthshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2019

Gwnaed 25 Ionawr 2019
Yn dod i rym 1 Chwefror 2019

Made 25 January 2019
Coming into force 1 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Hardwick, Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Hardwick Interchange, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 1 February 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Chwefror 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o Gefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni fel a ganlyn:

Y darnau o’r cerbyttyfyrdd tua’r gogledd a thua’r de sy’n ymestyn o’u cyffyrdd â’r brif gerbyttyfyrdd gylchredol wrth Gyfnewidfa Hardwick hyd at ganolbwynt y B4521 with gyffordd Ynysgynwraidd.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(CYFNEWIDFA HARDWICK, Y FENNI, SIR
FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU,
BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465 neu gerllaw iddi yng Nghyfnidfa Hardwick, Sir Fynwy.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny Trunk Road as follows:

The lengths of the northbound and southbound carriageways that extend from their junction with the main circulatory carriageway at Hardwick Interchange to the centre point of the B4521 at Skenfrith junction;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 1 February 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**THE A465 TRUNK ROAD (HARDWICK
INTERCHANGE, ABERGAVENNY,
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road at Hardwick Interchange, Monmouthshire.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o'r A465 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch ar 1 Chwefror 2019 am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beiciwr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darnau o'r cerbytyffyrdd tua'r gogledd a thua'r de sy'n ymestyn o'u cyffyrdd â'r brif gerbytyffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Hardwick hyd at ganolbwynt y B4521 wrth Gyffordd Ynysgynwraidd.

Y Llwybr Arall – Llwybr Dargyfeirio sy'n cynnwys Pont Isel ar gyfer Traffig sy'n teithio tua'r Gogledd a thua'r De

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd o amgylch Cyfnewidfa Hardwick a mynd ar yr A40 tua'r gogledd tuag at y Fenni, ac yna mynd ar hyd Hereford Road ac ailymuno â phrif gerbytyffordd yr A465 wrth Gyffordd Triley Mill. I'r gwrthwyneb i draffig sy'n teithio tua'r de.

Y llwybr arall i draffig sy'n dymuno mynd ar y B4521 i Ynysgynwraidd yw dilyn y llwybr dargyfeirio uchod i Gyffordd Triley Mill a parhau tua'r de hyd at y man y

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A465 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

It is expected that the temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will be in force intermittently overnight between 20:00 hours and 06:00 hours from 1 February 2019 for a maximum duration of 18 months. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians & Alternative Routes

The lengths of the northbound and southbound carriageways that extend from their junction with the main circulatory carriageway at Hardwick Interchange to the centre point of the B4521 at Skenfrith Junction.

Alternative Route – Northbound and Southbound Traffic with Low Bridge on Diversion Route

The alternative route for northbound traffic is to proceed around Hardwick Interchange and take the A40 in a northerly direction towards Abergavenny, then proceed along Hereford Road and re-join the main carriageway of the A465 at Triley Mill Junction. Vice versa for southbound traffic.

The alternative route for traffic wishing to access the B4521 to Skenfrith shall follow the diversion route above to Triley Mill Junction and proceed in a

mae'r ffordd ar gau.

**Y Llwybr Arall – Cerbydau dros 4.4 metr neu 14tr
6 modfedd o Uchder**

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de ac sydd angen mynediad at safle'r gwaith yw parhau i Gyffordd Ynysgynwraidd, y B4521, a chânt eu hebrwng drwy'r darn sydd ar gau gan fancsmon.

southerly direction to the point of closure.

**Alternative Route – Vehicles over 4.4 metres or
14ft 6 inches in Height**

The alternative route for northbound and southbound vehicles requiring access to the work site should proceed to the B4521 Skenrith Junction and will be escorted through the closure by a banksman.